Oes rhywun rydych yn ei adnabod ar goll?

Canllawiau

Taflen wybodaeth 2

Gall fod yn brofiad ysgytiol pan fod person rydych yn ei adnabod yn mynd ar goll. Man cychwyn yw'r daflen wybodaeth hon; ei phwrpas yw i'ch helpu trwy restru pethau i'w gwneud ac ystyried pan sylweddolwch fod rhywun ar goll.

Yr awr gyntaf

Gall fod yn anodd gwybod beth i'w wneud pan â rhywun ar goll ond mae'n hanfodol eich bod yn gweithredu yn syth, yn enwedig os gall y person fod mewn perygl.

- Archwiliwch ei gartref neu'r man olaf y'i gwelwyd rhag ofn bod y person yn cuddio neu ei fod wedi cwympo ac wedi'i anafu
- Edrychwch am unrhyw negeseuon, llythyron, nodiadau neu gliwiau sy'n awgrymu ble maent wedi mynd
- Cysylltwch â pherthnasau, ffrindiau a gweithle y person i sicrhau ei fod ar goll mewn gwirionedd

Gall fod yn ddefnyddiol cadw cofnod o bopeth yr ydych wedi'i wneud, pob sgwrs ffôn yr ydych wedi'i chael ac unrhyw beth sy'n ymddangos yn anghyffredin neu'n ddrwgdybus.

Ond peidiwch ag oedi – os ydych wedi sefydlu bod rhywun ar goll, cysylltwch â'r heddlu lleol i'w hysbysu yn syth.

Cofiwch, does dim rhaid i chi aros 24 awr cyn hysbysu'r heddlu fod rhywun ar goll.

Rhowch wybodaeth fanwl i'r heddlu

Mae'n bosibl bydd yr heddlu yn cymryd y manylion llawn yn syth. Ar y llaw arall, gan fod y rhan fwyaf o bobl yn dychwelyd neu'n cael eu darganfod yn weddol gyflym, mae'n bosib bydd yr heddlu ond yn cymryd manylion bras i gynorthwyo eu hymholiadau cychwynnol gan ddychwelyd atoch i gael y darlun llawn os na fydd y person wedi dychwelyd. Bydd y wybodaeth ganlynol o ddefnydd i'r heddlu:

- Disgrifiad o'r person coll, gan gynnwys man geni, creithiau, tatŵs, sbectol ac yn y blaen a'r dillad yr oeddynt yn eu gwisgo (os yw'n hysbys i chi)
- Unrhyw feddyginiaeth maent yn ei chymryd, unrhyw gyflyrau corfforol neu feddyliol sydd ganddynt (er enghraifft, iselder ysbryd). Dwedwch wrth yr heddlu a yw'r person wedi mynd â'r feddyginiaeth gydag ef
- Ei symudiadau olaf cyn mynd ar goll
- Unrhyw wybodaeth arall sy'n awgrymu ei fod yn agored i niwed
- Ymddygiad neu ddigwyddiadau anarferol – ystyriwch arferion neu *routine* y person coll a beth roeddynt yn ei wneud pan wnaethant ddiflannu
- Yr hyn rydych yn ei gredu fod y person coll wedi mynd gydag ef. Dwedwch wrth yr heddlu os yw'r person coll wedi gadael rhywbeth y byddant yn cario fel arfer (er enghraifft, allweddi, ffôn symudol, pwrs ac yn y blaen.) Gwiriwch a yw'r person wedi cymryd ei drwydded deithio (os oes un ganddo)

- Rhif ffôn symudol y person coll ac enw'r rhwydwaith (e.e. Orange, Vodafone) os yw'n hysbys i chi

- Gwybodaeth ynglŷn â chyfrifiadur neu liniadur y person coll, gan gynnwys cyfeiriadau e-bost a manylion unrhyw wefannau rhwydweithio cymdeithasol, blogiau, gwefannau personol a gwefannau rhannu gwybodaeth ar-lein y mae'r person coll yn eu mynychu/defnyddio. Efallai yr hoffech chi a'r/neu'r heddlu eu gwirio am wybodaeth bellach

- Os yw car neu feic modur y person ar goll hefyd, rhaid i chi sôn wrth yr heddlu a rhoi disgrifiad o'r modur a'r rhif cofrestru (os yw'n hysbys i chi)

Rhowch gymaint o wybodaeth berthnasol ag y gellwch i'r heddlu a dwedwch wrthynt beth rydych wedi'i wneud i geisio darganfod y person coll.

Gwnewch restr o gysylltiadau i'r heddlu

Dylai'r rhestr gynnwys manylion cyswllt pobl eraill sy'n adnabod y person coll ac y gall gynorthwyo'r heddlu, er enghraifft:

- Perthnasau
- Ffrindiau
- Ei gyflogwr neu ei ysgol
- Unrhyw un arall a fedr wybod ble mae'r person coll

Cofiwch restru eu henwau llawn a rhifau ffôn a chyfeiriadau cartref a gwaith os ydynt yn hysbys i chi. Os ydych wedi siarad ag unrhyw un ohonynt yn barod, hysbyswch yr heddlu a nodwch unrhyw wybodaeth a ddarparwyd ganddynt.

Os ydych yn mynd i gysylltu â nifer o berthnasau a ffrindiau, ceisiwch sicrhau bod eich ffôn chi yn rhydd i gymryd galwadau rhag ofn bydd y person coll yn ceisio cysylltu â chi, e.e. ddefnyddiwch ffôn symudol ffrind.

Os ydych am adael y tŷ, trefnwch fod rhywun arall yno i ateb y ffôn neu sicrhewch fod y peiriant ateb neu'r system bost llais yn gweithio.

Gwnewch restr o leoliadau posib

- Ystyriwch ble gall y person fod wedi mynd, er enghraifft, llefydd maent yn eu hoffi neu gyn gyfeiriadau, a gwnewch restr o'r llefydd hyn

- Os yw'r person wedi bod ar goll o'r blaen, gwnewch yn siŵr eich bod yn cynnwys y llefydd cafodd ei ddarganfod

Darparwch luniau

- Rhowch luniau (ffotograffau) diweddar o'r person coll i'r heddlu. Lluniau agos o'r wyneb sydd orau os yn bosibl

- Os nad oes gennych luniau diweddar, gwnewch yn siŵr eich bod yn dweud wrth yr heddwas/wraig pryd y tynnwyd y llun a nodwch os oes unrhyw wahaniaethau rhwng gwedd y person yn y llun a nawr

- Os oes gennych fideo neu ffilm DVD o'r person coll, gall fod o ddefnydd i'r heddlu

Hysbyswch yr heddlu os yw'r person coll yn blentyn gall fod mewn perygl

- Mewn amgylchiadau arbennig, gall yr heddlu lansio Rhybudd Achub Plentyn (*Child Rescue Alert*) os yw'r person coll yn blentyn gall fod mewn perygl

- Os credwch fod eich plentyn wedi'i gymryd allan o'r Deyrnas Unedig (e.e. wedi'i herwgipio gan y rhiant arall), dwedwch wrth yr heddlu er mwyn iddynt gymryd camau i sicrhau y cânt ei hysbysu os bydd yr herwgipiwr yn ceisio gadael y DU. Yn ychwanegol, gall yr heddlu drefnu fod Rhybudd Melyn Interpol yn cael ei ledaenu ynglŷn â'r plentyn coll ac ychwanegu ei fanylion at fàs data plant coll Interpol

Cysylltu ag ysbytai lleol

- Mae'n bosib bydd yr heddlu yn cysylltu â'r ysbytai lleol ond petaech chi'n gwneud hynny gall arbed amser. Os yn briodol, ystyriwch wneud hyn cyn hysbysu'r heddlu fod y person ar goll

- Cofiwch ofyn am bobl anhysbys/dienw sydd wedi cael mynediad i'r ysbyty hefyd. Petai'r person coll wedi bod mewn

damwain, gall fod yn anymwybodol ac felly'n methu datgelu ei enw

- Mae'n bosib fod modd gan yr heddlu i ledaenu rhybudd trwy'r ymddiriedolaeth GIG lle'r aeth y person ar goll

- Mae'n debygol y bydd yr heddlu yn cysylltu â Swyddog Cyswllt y Crŵner i ofyn a yw'r Crŵner lleol wedi'i hysbysu o unrhyw bobl anhysbys sy'n ymdebygu i ddisgrifiad y person coll. Mae'n bosib bydd yr heddlu yn cysylltu ag Uned Pobl Coll y DU i holi a ydynt wedi derbyn gwybodaeth am bobl anhysbys sy'n debyg i'r person coll mewn rhannau eraill o'r DU. Holwch yr heddlu a fedrwch eu cynorthwyo gyda'u hymholiadau drwy ddarparu gwybodaeth ychwanegol a all fod yn berthnasol neu'n bwysig

Chwilio am y person coll

- Trafodwch gyda'r heddlu os ydych am archwilio'r lle aeth eich perthynas neu'ch ffrind ar goll, y mannau maent yn hoff ohonynt neu'r lle olaf i chi eu gweld. Bydd yr heddlu yn rheoli'r strategaeth chwilio a bydd rhaid i chi sicrhau bod eich chwiliadau chi a gwirfoddolwyr eraill yn cyd-fynd â chwiliadau'r heddlu

- Os yw'r ardal lle'r aeth y person ar goll yn agos at lyn, afon neu fôr, bydd yr heddlu yn ystyried chwilio'r dŵr. Mae'n bwysig i chi gydweithio â'r heddlu a gadael i dimau arbenigol chwilio mannau peryglus

Peidiwch â rhoi eich hun mewn perygl ar unrhyw gyfrif

- Os aeth eich perthynas neu'ch ffrind ar goll mewn man anghysbell, er enghraifft, tra'n cerdded bryniau neu'n mynydda, efallai bydd yr heddlu yn derbyn cymorth gan y tîm Chwilio ac Achub Ucheldir neu Iseldir lleol. Dylech ddweud wrth yr heddlu os ydych chi am ofyn am gymorth tîm Chwilio ac Achub, gan fydd rhaid i Gynghorydd Chwilio'r Heddlu (*Police Search Advisor* neu *PolSA*) gydlynu'r chwilio. Eto, peidiwch â rhoi eich hun mewn perygl

- Mewn rhai amgylchiadau, bydd yr heddlu yn gwirio eu system Dalfa i sicrhau nad yw'r person coll wedi'i arestio

Ystyriwch gyfyngu mynediad i gartref neu ystafell y person coll

- Ystyriwch gyfyngu mynediad i ystafell neu gartref y person coll tan fydd yr heddlu wedi'i archwilio ac wedi casglu tystiolaeth

- Cofiwch gall ddillad, dillad gwely ac eitemau personol eraill ddal tystiolaeth bwysig a gwybodaeth i'r heddlu. Felly, peidiwch â golchi unrhyw beth neu lanhau'r ystafell. Peidiwch â chyffwrdd â brwsh gwallt neu frwsh dannedd y person coll ond sicrhewch eu bod yn cael eu dwyn at sylw yr heddlu rhag ofn y dymunant eu cymryd er mwyn casglu DNA. Bydd hyn yn bwysig os yw'r person ar goll am gyfnod hir

Cadw nodiadau

- Cadwch nodlyfr gyda chi bob amser er mwyn ysgrifennu unrhyw wybodaeth a roddir i chi gan ffrindiau, perthnasau a'r heddlu

- Nodwch unrhyw gwestiynau hoffech ofyn i'r heddlu y tro nesaf siaradwch â hwy

- Ysgrifennwch enw a rhif yr heddwas/wraig â chyfrifoldeb am yr achos neu/a'r Cydlynydd Pobl Coll (mae rhai lluoedd heddlu â staff arbenigol sydd â chyfrifoldeb am gadw trosolwg o achosion pobl coll)

- Gofynnwch i'r heddlu beth yw'r asesiad o berygl a bennwyd i'r person coll (isel, canolig, uchel) a gwnewch nodyn ohono

Meddyliwch am eich hun

Gofalwch am eich hun a'ch teulu a pheidiwch â bod ag ofn holi am gymorth a chefnogaeth gan eraill os yw'n bosibl. Mae nifer o elusennau yn cynnig cefnogaeth a chyngor a gellir darganfod eu manylion cyswllt yn y ffurflen wybodaeth *Mudiadau sy'n gallu helpu* ac ar-lein. Gallwch chi gynorthwyo'r heddlu yn well a chynnig cefnogaeth i'r person coll ar ei ddychweliad os ydych yn gofalu am eich hun.

Yr wythnos gyntaf

Creu cysylltiad cyson

- Sicrhewch fod gennych bwynt cyswllt yn yr heddlu a thrafodwch pa mor aml byddant yn cysylltu â chi i'ch diweddaru a/neu pa mor aml a phryd gallwch gysylltu â nhw

- Mae'n debyg byddwch eisiau trafod yr hyn sy'n cael ei wneud i ddarganfod y person coll â'r heddwas/wraig â chyfrifoldeb am yr ymchwiliad. Bydd yr heddlu yn darparu gwybodaeth ar yr hyn sy'n cael ei wneud pan yn bosibl. Efallai yr hoffech holi, er enghraifft: pa chwiliadau a wnaed? Pa gyrff, gan gynnwys Uned Pobl Coll y DU, y maent wedi cysylltu â hwy? Ydi'r person wedi nodi fel person coll ar Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu (*Police National Computer*)?

Ystyriwch gefnogaeth bellach

- Mae diflaniad ffrind agos neu berthynas yn gallu bod yn ddirdynnol. Gallwch brofi ymatebion emosiynol cryf a theimlo ei fod yn anodd ymdopi

- Mae nifer o elusennau gall eich cynorthwyo. Mae manylion rhai o'r elusennau hyn yn y ffurflen wybodaeth *Mudiadau sy'n gallu help*, sydd ar gael ar wefan Uned Pobl Coll y DU www.soca.gov.uk/about-soca/missing-persons-bureau ynghyd â chysylltiadau at elusennau fel *Missing People*. Mae nifer o elusennau wedi'u rhestru ar y we hefyd

- Mae'n bosib byddwch yn elwa o ddarllen *Someone is Missing*: *An emotional resource for families and friends of missing persons*, ar gael ar www.missingpersons.gov.au/

- Mae'n bosib y bydd rhaid i chi hysbysu'ch cyflogwr ynglŷn â'r sefyllfa a thrafod sut i gydbwyso eich gwaith a chwilio am y person coll

Cyhoeddusrwydd

Gall godi ymwybyddiaeth ynglŷn â'ch ffrind neu berthynas coll arwain at eu darganfod. Trafodwch â'r heddwas/wraig â chyfrifoldeb am yr achos pa fath o gyhoeddusrwydd i gynhyrchu a pha wybodaeth dylid rhoi i'r wasg a pha wybodaeth dylid ei hepgor.

- **Posteri** – Gallwch greu poster am y person coll a'i ddosbarthu yn yr ardal lle maent yn byw a'r lle yr aethant ar goll ac mewn unrhyw lefydd eraill y credwch y byddai'n fuddiol. Dylai'r poster gynnwys llun, disgrifiad o'r person coll gan gynnwys unrhyw nodweddion anarferol neu wahaniaethol fel tatŵs neu sythwr dannedd, ble a phryd yr aethant ar goll ac unrhyw beth arall a fedr gynorthwyo'r cyhoedd i'w adnabod

- **Peidiwch a rhoi eich manylion cyswllt personol ar y poster** gan y gall hyn eich gadael yn agored i niwed. Rhowch rif ffôn y llu heddlu â chyfrifoldeb am yr achos (rhif 24 awr fyddai orau) a/neu rif ffôn yr elusen *Missing People*. Mae ganddynt rif ffôn arbennig ar gyfer derbyn gwybodaeth gan y cyhoedd am bobl coll (0500 700 700)

- **Cydweithio â'r cyfryngau lleol** – Mae'n bosib gallwch weithio gyda'r Swyddog Cyfryngau yn y llu heddlu i gyhoeddi gwybodaeth i'r wasg a threfnu digwyddiadau i'r cyfryngau

- **Cyhoeddusrwydd ar y wê** – Ystyriwch greu gwefan neu dudalen ar wefan rhwydweithio cymdeithasol i godi ymwybyddiaeth a chofnodi gwybodaeth

Os bydd diddordeb gan y wasg yn yr achos, byddwch yn ymwybodol y gallant siarad â phobl eraill ynglŷn â'r person coll. Gallant redeg y stori mewn ffordd wahanol i'r hyn yr oeddech yn ei disgwyl hefyd.

Os credwch na allwch ymdopi â'r wasg, gofynnwch i berthynas neu ffrind i fod yn llefarydd ar eich rhan.

Cofiwch hefyd fod gan y wasg fwy o newyddion nag y gallant ddefnyddio ar adegau; felly, er efallai y cawsoch gyfweliad neu wnaethoch ddarparu gwybodaeth, nid yw'n dilyn byddant yn cyhoeddi'r stori.

Mae rhagor o wybodaeth ar gyhoeddusrwydd yn y ffurflen wybodaeth *Defnyddio cyhoeddusrwydd* sydd ar gael ar wefan Uned Pobl Coll y DU www.soca.gov.uk/about-soca/missing-persons-bureau

Darparwch wybodaeth ychwanegol i'r heddlu

- Ystyriwch a oes unrhyw fanylion pellach a fedr fod o ddefnydd i'r heddlu. Ehangwch eich rhestr o gysylltiadau i gynnwys unrhyw un a allai fod wedi gweld y person coll cyn neu ar ôl iddynt fynd ar goll; er enghraifft, ffrindiau eraill, cydnabyddion, perthnasau estynedig, cwmnïau dosbarthu a phobl post, a.y.y.b.

- Os nad ydych wedi gwneud yn barod, rhowch fanylion cyswllt meddyg a deintydd y person coll. Wrth gasglu gwybodaeth am y person coll, mae'n bosib y dymuna'r heddlu gysylltu â hwy i weld cofnodion meddygol a deintyddol y person coll

Gwnewch restr o bethau y gall eraill ei wneud i helpu

Gwnewch restr o bethau gall gwirfoddolwyr wneud drosoch chi a'r teulu rhag ofn y bydd rhywun yn gofyn sut y gallant helpu (e.e. creu tudalen ar wefan rhwydweithio cymdeithasol, creu a dosbarthu poster).

Os yn berthnasol, cysylltwch â llochesi lleol

Gan ddibynnu ar yr amgylchiadau, gall fod yn fuddiol cysylltu â llochesi digartref lleol a gwestai i weld a yw'r person coll yn aros yno.

Camau nesaf

Os nad ydych wedi gwneud yn barod, gallwch ddilyn y camau canlynol:

- Datblygwch gynllun a gosodwch amserlen â cherrig milltir i barhau â'r ymgyrch i ddarganfod y person coll. Gweithiwch gyda'r heddlu i benderfynu beth y gellwch chi ac eraill ei wneud yn y chwiliad tymor hir

- Trefnwch ymweliadau rheolaidd neu alwadau ffôn gyda'r heddwas/wraig â chyfrifoldeb am yr achos i adolygu statws yr ymchwiliad a derbyn gwybodaeth ddiweddar a chytunwch pa mor aml i gwrdd/gysylltu. Mae'n bosib na fydd yr heddlu yn gallu rhannu gwybodaeth arbennig gyda chi. Os ydych chi'n derbyn gwybodaeth newydd neu bwysig ar unrhyw adeg, cysylltwch â'r heddlu yn syth

- Darganfyddwch beth gall mudiadau eraill fel elusennau, timau cymunedol lleol a grwpiau cefnogol wneud i'ch helpu; er enghraifft, gall eich grŵp Gwarchod y Gymdogaeth (*Neighbourhood Watch*) lleol gadw llygad am y person coll a dosbarthu posteri. Mae manylion rhai o'r mudiadau hyn yn y ffurflen wybodaeth *Mudiadau sy'n medru helpu* sydd ar gael ar wefan Uned Pobl Coll y DU www.soca.gov.uk/about-soca/missing-persons-bureau

- Gwnewch yn siŵr bod ymwybyddiaeth y gymuned am y person coll yn uchel trwy gadw diddordeb y wasg pan yn bosib

- Ystyriwch geisio cymorth gan ffigyrau gwleidyddol (e.e. eich aelod seneddol lleol), aelodau dylanwadol o'r gymuned neu unrhyw un arall a fedr ysgogi diddordeb y wasg yn yr achos neu gael llun a manylion y person coll yn y wasg

- Gallai fod yn ddefnyddiol creu pecyn i'r wasg sy'n cynnwys gwybodaeth ynglŷn â phryd a ble yr aeth y person ar goll, ei ddisgrifiad, lluniau a rhifau ffôn i bobl gysylltu â gwybodaeth. Gallwch roi y pecyn i orsafoedd radio lleol ac unrhyw gyrff cyfryngol eraill sydd â diddordeb. Bydd hwn yn sicrhau bod ymwybyddiaeth yn parhau'n uchel a bod dim angen i chi ailddweud popeth bob tro rydych yn siarad â rhywun

- Ystyriwch geisio cyhoeddusrwydd ar ben-blwydd y person coll neu ar ben-blwydd ei ddiflaniad, er y bydd rhain yn adegau dirdynnol i chi. Bydd hwn yn cadw ymwybyddiaeth yn uchel, hyd yn oed os yw'n amser hir ers i'r person fynd ar goll

- Mae'r rhan fwyaf o bobl sy'n mynd ar goll yn dychwelyd neu'n cael eu darganfod yn weddol gyflym. Er hyn, os yw'ch perthynas neu'ch ffrind wedi bod ar goll am nifer o flynyddoedd, gall fod yn fuddiol creu a dosbarthu llun wedi'i heneiddio (*age-progressed image*), i godi ymwybyddiaeth ynglŷn â sut gall person edrych nawr. Mae nifer o arbenigwyr yn cynnig y gwasanaeth hwn. Gallwch gael gwybodaeth bellach gan eich llu heddlu lleol a gallant hwy dderbyn manylion arbenigwyr gan Ganolfan Gweithrediadau Arbenigol (*Specialist Operations Centre*) y *Serious Organised*

Crime Agency (*SOCA*). Gall yr elusen *Missing People* ddarparu gwybodaeth neu gymorth hefyd

- Ystyriwch bob opsiwn o ran y cyfryngau. Trafodwch â'ch heddwas/wraig penodedig a/neu elusen cynorthwyol y posibiliad o gysylltu â rhaglenni teledu fel *Missing Live* i godi ymwybyddiaeth

- Sicrhewch eich bod wedi rhoi popeth gall helpu'r ymchwiliad i'r heddlu, gan gynnwys cyfrifiaduron y person coll, nodiadau perthnasol a.y.y.b.

- Cadarnhewch fod DNA y person coll (e.e. DNA a gymerwyd o frwshys gwallt neu ddannedd) wedi'i roi ar y Bàs Data Pobl Coll Cenedlaethol (*National Missing Persons DNA Database*) a ddelir gan yr Asiantaeth Gwella Plismona Cenedlaethol. Bydd y sampl DNA ond yn cael ei gymharu â samplau pobl coll a phobl anhysbys. Ni fydd yn cael ei ychwanegu at y bàs data cenedlaethol troseddol nac yn cael ei ddefnyddio at unrhyw ddiben arall. Bydd y DNA yn cael ei ddinistrio pan ddarganfyddir y person coll

- Cadarnhewch fod cofnodion deintyddol y person coll, os oeddynt wedi cofrestru gyda deintydd, wedi'u hychwanegu at y Casgliad Cenedlaethol o Gofnodion Dannedd Pobl Coll a ddelir gan Uned Pobl Coll y DU

- Darganfyddwch a oes olion bysedd neu olion cledrau'r llaw ar gael ar gyfer y person coll. Mae'n bosib y gellir casglu rhain oddi ar eiddo'r person coll. Cadarnhewch fod copïau o'r olion wedi'u danfon at Uned Pobl Coll y DU

- Cysylltwch â'r heddlu bob hyn a hyn i gael gwybodaeth ddiweddar ac i sicrhau bod y person dal wedi'i nodi ar goll ar y Cyfrifiadur Heddlu Cenedlaethol (*Police National Computer*)

Cymorth a chefnogaeth ychwanegol

Gall fod yn ddirdynnol pan â person ar goll. Cymerwch ofal o'ch hun gorau gellwch a pheidiwch â bod ag ofn gofyn i eraill am gymorth a chefnogaeth. Gall yr elusen *Missing People* roi cyngor, cefnogaeth a chymorth gyda chyhoeddusrwydd i chi. Mewn rhai amgylchiadau, gall *Missing People* geisio cysylltu â'r person coll a siarad â hwy ar eich rhan. Mae hefyd ganddynt gysylltiadau â'r elusen Gymreig, *Missing Wales*.

Cysylltwch â *Missing People* ar:

116 000 (am ddim)
Gwefan: www.missingpeople.org
Ebost: info@missingpeople.org

Cysylltwch â *Missing Wales* ar:

08000 12 12 17 (am ddim) neu
01994 419 006 neu 07967 503 439
Gwefan: www.missingwales.co.uk
Ebost: janet@missingwales.co.uk

Angen rhagor o gymorth?

Os oes angen mwy o wybodaeth arnoch, gellir lawr lwytho taflenni gwybodaeth eraill o wefan yr Asiantaeth Gwella Plismona Cenedlaethol http://missingpersons.police.uk

Os ydych am gopïau ychwanegol neu os oes eisiau'r wybodaeth mewn ffurf wahanol arnoch neu os oes gennych gwestiynau ynglŷn â'r cynnwys, cysylltwch ag Uned Pobl Coll y DU ar 0845 000 5481 neu e-bostiwch **missingpersonsbureau@nca.x.gsi.gov.uk**

Nid yw'r wybodaeth yn y canllaw hwn yn holl gynhwysfawr a dylid ei defnyddio yn gysylltiedig â chanllawiau heddlu a chyngor cyfreithiol annibynnol.

Ni ellid cadarnhau bod gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg yn cael ei gynnig gan unrhyw fudiad a enwir yn y daflen hon.